| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **25 MEDI 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CÔD LLYWODRAETHU LLEOL DRAFFT** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETH – ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **Argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith fabwysiadu'r polisi diwygiedig.** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Darparu Trefniadau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol yn dweud bod yn rhaid i Awdurdod Lleol sy'n ceisio sicrhau'r arfer orau fabwysiadu Côd Llywodraethu Lleol. Bwriad y Côd yw casglu at ei gilydd yr elfennau allweddol o lywodraethu corfforaethol sy'n bodoli yn yr Awdurdod.

**1.2** Nid yw'r Cyngor wedi cynhyrchu na mabwysiadu Côd o'r fath yn y gorffennol ac y mae hyn wedi'i nodi fel gwendid yn y ddau ddatganiad llywodraethu blynyddol a gyhoeddwyd gan y Cyngor hyd yma.

**1.3** O fewn Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Darparu Trefniadau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol, fe geir chwech o egwyddorion craidd, ynghyd â nifer o egwyddorion cefnogol i bob un. Mae'r fframwaith yn gosod allan y gofynion ar gyfer bodloni pob egwyddor a hefyd yr hyn ddylai gael ei adlewyrchu yn y Côd Llywodraethu Lleol. Mae Côd drafft y Cyngor yn seiliedig ar yr egwyddorion hynny.

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r Côd Llywodraethu Lleol. Mae copi o'r Côd drafft ynghlwm fel **Atodiad A.**

DRAFT

| **Enw Polisi** | **CÔD LLYWODRAETHU LLEOL DRAFFT** |
|---|---|
| Rhif Fersiwn | Fersiwn 1: 2012 |
| Dyddiad Mabwysiadu | Medi 2012 |
| Corff mabwysiadu | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad Adolygu Nesaf | Medi 2014 |
| Awdur | Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio |
| Cyfrifoldeb Gweithredu | Swyddog Adran 151 |
| Cynulleidfa Darged | Holl weithwyr y Cyngor, Aelodau, Partneriaid, Contractwyr, Asiantiaid a chydranddeiliaid eraill. |

## CYFLWYNIAD

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system lle mae awdurdodau lleol yn cyfarwyddo ac yn rheoli eu swyddogaethau ac yn ymwneud â'u cymunedau. Mae'n seiliedig ar yr egwyddorion sylfaenol o fod yn agored ac yn gynhwysol, gonestrwydd ac atebolrwydd ynghyd â'r cysyniad cyffredinol o arweinyddiaeth. Y mae'n system ryngberthnasol sy'n dod â'r set sylfaenol o ofynion deddfwriaethol, egwyddorion llywodraethu a phrosesau rheoli at ei gilydd.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod yr angen am drefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn ac y mae wedi ei rhoi yn eu lle bolisïau, systemau a gweithdrefnau a ddyluniwyd i gyflawni hyn a hefyd stiwardiaeth yr adnoddau sydd ar gael iddo. Mae'r Côd Llywodraethu Lleol hwn yn dwyn at ei gilydd yr elfennau allweddol o lywodraethu corfforaethol sy'n bodoli yn yr Awdurdod.

Mae'r Côd hwn yn gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Darparu Trefniadau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol. Ceir chwe egwyddor greiddiol yn y fframwaith, ynghyd â nifer o egwyddorion i gefnogi pob un. Mae'r fframwaith yn gosod allan y gofynion ar gyfer bodloni pob egwyddor a hefyd yr hyn a ddylai gael ei adlewyrchu yn y Côd Llywodraethu Lleol. Mae'r Côd hwn yn seiliedig ar yr egwyddorion hynny.

Bydd y Côd Llywodraethu Lleol angen ei adolygu'n gyson wrth i'r prosesau hynny ddatblygu ac, felly, bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'r broses ar gyfer adolygu'r datganiad llywodraethu blynyddol.

**Egwyddor Un:**
**Canolbwyntio ar bwrpas yr Awdurdod ac ar ganlyniadau i'r gymuned a chreu gweledigaeth i'r ardal leol.**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn darparu arweinyddiaeth strategol trwy gyfathrebu'n glir pwrpas a gweledigaeth yr Awdurdod a'r canlyniadau y mae yn ei fwriadu i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi ei bod yn bwysig i ddinasyddion a chymunedau gefnogi blaenoriaethau allweddol, ac yn gwneud gwaith ymgynghori gydag ystod eang o gydranddeiliaid er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn canolbwyntio ar ddarparu'r canlyniadau iawn.

Yn y Cynllun Strategol Integredig Sengl, nodir y weledigaeth ar gyfer yr Ynys ac amcanion tymor hir i'r ardal. Mae'r Cynllun Strategol Integredig Sengl a dogfennau allweddol eraill yn darparu'r cyd-destun strategol ar gyfer nifer o raglenni gwaith y Cyngor.

Mae Cynllun Gwella Cyngor Sir Ynys Môn (y Cynllun Busnes Corfforaethol) yn nodi'r blaenoriaethau am y flwyddyn ac y mae'n seiliedig ar flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor sydd eu hunain wedi'u datblygu a'u mabwysiadu yn dilyn ymgynghori yn eang. Mae'r blaenoriaethau corfforaethol yn darparu glasbrint ar gyfer datblygiadau a gwelliannau yn y dyfodol ac yn barhaus. Mae'r Cynllun Gwella yn nodi'r amcan strategol a fabwysiadwyd gan y Cyngor sef: 'bydd y Cyngor yn hyrwyddo ac yn diogelu diddordebau'r Ynys yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol'.

Mae'r Cynllun Busnes Corfforaethol blynyddol yn nodi rhaglen waith lefel uchel y Cyngor am y flwyddyn nesaf ac yn rhoi manylion am nifer o amcanion gwella a osodwyd. Mae'r rhain yn adeiladu ar flaenoriaethau a amlinellwyd yng nghynllun y flwyddyn flaenorol gyda ffocws parhaol ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd i ddinasyddion. Gofynnir i wasanaethau unigol gynhyrchu Cynlluniau Busnes Gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag amcanion corfforaethol y Cynllun Busnes Corfforaethol.

Mae rôl arweinyddiaeth gymunedol y Cyngor wedi'i chynnwys yng ngwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sydd yn gorff amlasiantaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ynys Môn, yr Heddlu, Iechyd, Gwirfoddol, Tân, sectorau Addysg Bellach ac Uwch ac Unllais Cymru yn cynrychioli cymunedau lleol a chynghorau tref. Pwrpas y Bwrdd yw siapio blaenoriaethau'r dyfodol mewn ymateb i'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Ynys dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae'r Cyngor yn darparu arweinyddiaeth ar y fenter Ynys Ynni, menter sydd â'r potensial i ddod â £biliynau i Ynys Môn a Gogledd Orllewin Cymru dros y 15 mlynedd nesaf trwy ystod o brosiectau'n ymwneud ag ynni. Mae'r rhain yn cynnwys Wylfa B a Fferm Wynt Centrica, a chynlluniau eraill (e.e. cynlluniau cynhyrchu ynni tonau).

Mae'r polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau cefnogol yn cynnwys:

- Bod yn rhan o'r Cytundeb Compact rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r 22 Awdurdod Lleol Cymru i sicrhau 47 o themâu penodol yng nghyswllt y rhaglen cydweithrediad a chydweithio.

**Egwyddor Dau:**
**Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi'u diffinio'n glir.**

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i gael strwythurau gwleidyddol a rheolaethol effeithiol a phrosesau i reoli gwneud penderfyniadau ac ymarfer awdurdod o fewn y sefydliad. I'r perwyl hwn, mae gan y Cyngor nifer o bolisïau a gweithdrefnau a luniwyd i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'r swyddogion ac Aelodau wedi'u diffinio'n glir a'u bod yn caniatáu iddynt weithio gyda'i gilydd tuag at bwrpas sy'n gyffredin. Mae'r gweithrediadau hyn yn cynnwys Cyfansoddiad y Cyngor, Codau Disgyblaeth, Cynlluniau Dirprwyo, Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion, Rheolau Gweithdrefn, Cylch Gorchwyl Pwyllgorau ac ati. Mae dogfennau eraill fel swydd disgrifiadau yn diffinio swyddogaethau a rolau gwahanol aelodau a swyddogion. Mae gan y Cyngor hefyd Brotocolau Rheolaeth Wleidyddol yn eu lle sy'n helpu i sefydlu ac i gynnal gwell perthynas weithio rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol unigol.

Mae gan y Cyngor hefyd Aelodau portffolio penodol ar gyfer gwasanaethau allweddol yn y Cyngor a chaiff eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau eu diffinio'n glir mewn disgrifiadau swydd a manylebau personol. Mae aelodau portffolio yn rhoddi arweiniad o ran cyfeiriad gwleidyddol i swyddogion ac yn ennyn parch y swyddogion ac yn darparu cefnogaeth iddynt weithredu prosiectau sy'n gysylltiedig â'u portffolios.

Mae'r polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau cefnogol yn cynnwys:

- Mae sesiynau Briffio cyn y Cyngor yn anelu at sicrhau cytundeb ymysg arweinwyr i osgoi gwrthdaro dianghenraid mewn cyfarfodydd.

**Egwyddor Tri:**
**Hyrwyddo gwerthoedd ar gyfer yr Awdurdod ac arddangos gwerth llywodraethu da drwy gynnal safonau uchel o ymddygiad.**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod tryloywder, gonestrwydd ac atebolrwydd unigolion mewn awdurdod lleol yn gonglfaen i lywodraethu corfforaethol effeithiol. Hefyd, mae enw da'r Cyngor yn dibynnu ar safonau ymddygiad pawb sy'n rhan ohono p'un ai'n Aelodau, yn weithwyr neu'n asiantaeth sy'n gwneud gwaith contract ar ei ran.

Mae gan y Cyngor godau ymddygiad sy'n berthnasol i Aelodau a swyddogion fel ei gilydd. Mae Polisi ar gyfer Atal Twyll a Llygredd ar gael ac mae gan y Cyngor Swyddog Monitro dynodedig a Phwyllgor Safonau y mae ei swyddogaethau'n cynnwys sicrhau y cynhelir safonau uchel o ymddygiad.

Mae gan y Cyngor brotocol ar gyfer Swyddogion/Aelodau a phwrpas y protocol yw pennu'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn eu hymwneud â'i gilydd ac i gynnig canllawiau ar rai o'r materion mwyaf cyffredin sy'n codi. Cydnabyddir bod ansawdd ac effeithiolrwydd y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion y Cyngor wrth wraidd llywodraethu lleol da.

Mae'r polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau cefnogol yn cynnwys:

- Polisi Rhannu Pryderon;
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol;
- Rheolau Gweithdrefn Contract;
- Polisi a chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;
- Datganiadau o ddiddordeb y Swyddogion a'r Aelodau.

**Egwyddor Pedwar:**
**Gwneud penderfyniadau gwybodus tryloyw sy'n cael eu sgriwtineiddio'n effeithiol ac sy'n rhoi sylw i reoli risg.**

Mae'r Cyfansoddiad a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn sefydlu cyfrifoldebau o ran gwneud penderfyniadau. Gwneir penderfyniadau gan gymryd i ystyriaeth y cyngor proffesiynol priodol. Caiff penderfyniadau gweithredu eu cyhoeddi ac maent yn agored i gael ei sgriwtineiddio. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn eu lle i gofnodi perfformiad y Cyngor yn erbyn DPA lleol a chenedlaethol fel ei gilydd.

DRAFFT

Cynhelir Cyfarfodydd Rhagarweiniol cyn bob cyfarfod o'r Pwyllgorau Sgriwtini, Archwilio a Chynllunio a hefyd cyn cyfarfodydd y Bwrdd Comisiynwyr. Mae Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor ynghyd ag uwch swyddogion perthnasol yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Nod y cyfarfodydd hyn yw cynefino'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gyda'r eitemau a'r adroddiadau ar y rhaglen, nodi unrhyw feysydd o bwys neu faterion sy'n debygol o fod yn gynhennus a darparu unrhyw ddogfennau neu wybodaeth gefnogol ychwanegol yn unol â gofynion y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd. Nod y cyfarfodydd hefyd yw hwyluso llif gwaith y pwyllgorau a sicrhau bod modd rheoli'r cyfarfodydd yn effeithiol.

Caiff effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio ei wella drwy weithdai a fynychir gan Aelodau'r Pwyllgor ac uwch swyddogion. Caiff y gweithdai hyn eu dylunio i roddi i'r Aelodau'r Sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni'r swyddogaethau sy'n ddisgwyliedig ohonynt fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r Cyngor yn defnyddio system rheoli perfformiad 'Ffynnon' fel prif dwlsyn rheoli perfformiad y Cyngor ac fel sylfaen ar gyfer y cyfarfodydd Monitro Perfformiad Chwarterol. Mewn cyfarfodydd o'r fath, rhaid sgriwtineiddio targedau cynlluniau busnes y gwasanaethau a'u monitro ar sail chwarterol.

Caiff yr holl adroddiadau, cofnodion a chofrestrau o benderfyniadau eu cyhoeddi yn amserol ac maent ar gael ar wefan y Cyngor ac yn agored i'w harchwilio. Cynhelir pob cyfarfod yn gyhoeddus ar yr amod nad oes gwybodaeth y gwneir eithriad ohoni dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei hystyried.

Mae'r Strwythur Pwyllgorau Sgriwtini cyfredol yn cynnwys 5 Pwyllgor Sgriwtini:

- Corfforaethol;
- Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo;
- Addysg a Hamdden; ac
- Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol.

Amcanion y Pwyllgorau Sgriwtini yw:

- Hyrwyddo proses gwneud penderfyniadau sy'n agored ac yn dryloyw a dal y sawl sy'n gwneud y penderfyniadau i gyfrif mewn modd adeiladol;
- Cefnogi'r Cyngor i wireddu ei weledigaeth ar gyfer y sir a'i nodau a'i flaenoriaethau strategol; a
- Hyrwyddo gwelliant parhaus, arferion gorau ac arloesed yn y gwasanaethau, y swyddogaethau a'r polisïau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt neu â dylanwad drostynt.

Mae pob Pwyllgor Sgriwtini yn cynhyrchu Rhaglen Waith. Gall unrhyw Aelod neu ddinesydd ofyn am gael cynnwys eitem ar Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini, ond oherwydd mai adnoddau prin sydd gan y Pwyllgorau, cynhelir prawf arwyddocâd i flaenoriaethu pa eitemau y dylid eu cynnwys.

Ni fedr Aelodau'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol fod yn aelod o Bwyllgor Sgriwtini ac o'r herwydd, mae'r Pwyllgorau'n annibynnol o'r Pwyllgor Gwaith. Un o nodau allweddol y broses Sgriwtini yw 'hyrwyddo proses gwneud penderfyniadau sy'n agored ac yn dryloyw a dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif mewn modd adeiladol'. Drwy wneud hynny, mae'r Pwyllgorau Sgriwtini yn cyflawni ei swyddogaeth sef bod yn ffrind beirniadol i'r Pwyllgor Gwaith. Caiff Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini ei ddarparu bob blwyddyn.

Mae'r Cyngor wrthi'n ffurfioli ei brosesau rheoli risg a chyhoeddi ei Strategaeth Risg Gorfforaethol ynghyd â'i Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiweddaraf. Caiff y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgorau Sgriwtini yn y dyfodol i'w diweddaru a'i thrafod.



DRAFFT

Mae'r polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau cefnogol yn cynnwys:

- Mae monitro a chofnodi nifer y dinasyddion / grwpiau cymunedol sy'n ymwneud â Sgriwtini bob blwyddyn yn ddangosydd perfformiad lleol.

**Egwyddor Pump:**
**Datblygu capasiti a medrusrwydd yr Aelodau a'r Swyddogion i fod yn effeithiol.**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i ddarparu hyfforddiant ar gyfer Aelodau a swyddogion a fydd yn cyfateb i'w swyddogaethau penodol. Mae trefniadau rheoli perfformiad a gwerthuso o gymorth i nodi anghenion hyfforddi.

Mae'r Cyngor wedi datblygu system werthuso sy'n cynnwys yr holl weithwyr gan gynnwys y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Cyngor wedi cydweithio gyda Chynghorau Conwy a Sir Ddinbych i ddarparu cynllun gwerthuso yn seiliedig ar gymwyseddau. Mae'r cynllun yr un i'r holl swyddogion o'r Prif Weithredwr i lawr.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno menter rheoli newid sy'n anelu at gychwyn proses o newid diwylliant yn y Cyngor o ran sut y mae rheolwyr yn rheoli pobl, cyllid a pherfformiad. Enw'r fenter yw Ethos Môn ac mae'n golygu bod rhaid i'r rheolwyr fabwysiadu nifer o werthoedd a daliadau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a'r cwsmer.

Caiff Cynllun Datblygu Blynyddol ar gyfer Aelodau Etholedig ei gynhyrchu a'i weithredu. Mae'r Cynllun Datblygu yn ddogfen fyw a chaiff ei diwygio yn ôl yr angen o ganlyniad i newidiadau mewn blaenoriaethau ac amgylchiadau. Caiff cynnydd o ran Datblygu Aelodau ei adrodd i'r Pwyllgor Safonau yn rheolaidd. Mae'r Pwyllgor yn monitro ac yn gwerthuso'r hyfforddiant a ddarperir. Caiff y Cynllun Datblygu Blynyddol ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau.

Mae'r polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau cefnogol yn cynnwys:

- Aelodau'n mynychu gweithdai a chyfleoedd hyfforddi y tu allan i'r Cyngor;
- Darperir sesiynau ar y cyd i Aelodau a swyddogion sy'n anelu at sicrhau fod Aelodau a swyddogion yn gweithio i'r un cyfeiriad;
- Mae'r Gweithgor Datblygu Aelodau yn penderfynu ar raglen o hyfforddiant a gweithdai sydd eu hangen i sicrhau bod yr Aelodau â'r sgiliau y maent eu hangen i weithredu fel Cynghorwyr effeithiol;
- Caiff adolygiadau datblygiad personol eu cynnal gydag Aelodau i nodi eu hanghenion hyfforddi;
- Caiff cynlluniau hyfforddi i Aelodau a phresenoldeb Aelodau mewn cyrsiau hyfforddi eu hadolygu'n chwarterol;
- Proses Gorfforaethol ar gyfer Adolygu Datblygiad Personol gweithwyr.

**Egwyddor Chwech:**
**Ymgysylltu gyda phobl leol a chydranddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.**

Mae'r Cyngor yn cynnal mentrau i sicrhau ei fod yn ymgysylltu gyda chydranddeiliaid i sicrhau atebolrwydd cadarn. Mae enghreifftiau o fentrau o'r fath yn cynnwys penderfyniadau cynllunio (siarad cyhoeddus mewn Pwyllgorau); cydweithio / gweithio mewn partneriaeth (mynychu byrddau rhaglen); cydweithio ar Ynys Ynni (gyda chydranddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat); a mwy o e-ddemocratiaeth i ganiatáu mwy o ymgynghori gyda'r cyhoedd a deisebu a chyhoeddi cofnodion a rhaglenni ar-lein.

Mae Cynllun Cymunedol Ynys Môn - Ein Hynys - Ein Dyfodol 2012-25 yn ddogfen strategol gorfforaethol allweddol ac yn hyrwyddo gweledigaeth tymor hir ar gyfer gwella'r economi a lles amgylcheddol a chymdeithasol yr ardal.

Mae'r polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau cefnogol yn cynnwys:

- Caiff holl gyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau eu cynnal yn gyhoeddus pryd bynnag y mae hynny'n bosibl. Caiff yr holl bapurau ar gyfer cyfarfodydd agored eu cyhoeddi ymlaen llaw ar wefan y Cyngor;
- Defnyddio sesiynau galw-i-mewn i ymgynghori ar ganlyniadau strategol arfaethedig y dylai'r Cyngor weithio tuag atynt yn y dyfodol;
- Ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a chyda Llais Ni ar ganlyniadau strategol arfaethedig gan roi cyfle i bobl ifanc roi atborth;
- Ymgynghori ar y Cynllun Busnes Corfforaethol gan gynnwys arolwg dinasyddion Ynys Môn.
- Datblygu Strategaeth Adnewyddu Democrataidd;
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol;
- Datblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldebau Strategol;
- Gweithredu'r Cynllun Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc;
- Rhoi cefnogaeth i sicrhau Bwrdd Gwasanaeth Lleol sy'n effeithiol ac yn integredig.

DRAFFT